# y Garthen

PAPUR BRO DYFFRYN TEIFI Mai 2020 75c


# O Gaerdydd i Gaergybi? Na, o Bontsiân i Baris… ac yn ôl




Nid teithio o Gaerdydd i Gaergybi wnaeth Clwb Ffermwyr Ifanc Pontsiân ar ddydd Llun y Pasg – fel y bwriadwyd yn wreiddiol – ond rhedeg i Baris ac yn ôl a chodi dros £8,000 ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd. Fe wnaeth dros 140 o aelodau a ffrindiau'r clwb gerdded, rhedeg, seiclo – ac hyd yn oed rhwyfo – gyfanswm o 1117.52 o filltiroedd rhwng 9yb a 5yh – gyda'r cyfan yn cael ei gyflawni o'u cartrefi a chan barchu canllawiau'r Llywodraeth ynghylch pellhau cymdeithasol.


*Einir a Nana Ryder*

Y targed gwreiddiol oedd teithio'r 218 o filltiroedd sydd rhwng Caerdydd a Chaergybi (trwy Bontsiân), ond chwalwyd y targed hwnnw wedi dim ond dwy awr a hanner oddi ar gychwyn yr her.

Bydd yr holl arian a godwyd ar y diwrnod yn mynd tuag at unedau gofal dwys Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin ac Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth.




## "Anhygoel!"

"Dw i'n falch iawn bod cymaint o bobol wedi ein cefnogi wrth gyflawni'r her a'n galluogi ni i fynd i Baris ac yn ôl gyda thua 87 milltir yn weddill. Anhygoel!" meddai Teleri Evans, Cadeirydd CFfI Pontsiân.

"Rydyn ni wedi gweld cymuned yn tynnu at ei gilydd i godi arian ar gyfer achos teilwng iawn."

# Pwy yw Pwy

**Cadeirydd:**
Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor Ll.B., B.D.

**BWRDD RHEOLI**
Yvonne Griffiths, Beth Davies,
Aled Eynon, Haulwen Lewis,
Martin Griffiths, Hefina Davies,
Rowena Davies - Franklin
Miriam James, Wenna Bevan-Jones

**PRAWF DARLLENWYR**
Martin Griffiths
Aled Eynon

**BWRDD GOLYGYDDOL**
Yvonne Griffiths,
Guto Prys ap Gwynfor
Peter a Bethan Evans

**CYSWLLT LLEOL**
**Llandysul/Capel Dewi –**
Beth Davies, 01559 362850
Cd1340@cd1340.force9.co.uk
**Pontsian** – Hefina Davies, Cwrt, Pontsian, 01545 590423
**Pencader** –
Ann Phillips, Rhoslwyn
01559 384558
annwyn15@hotmail.com
Mair Jones, Bro'r Hen Wr,
mairggg@icloud.com
**Drefach Felindre –**
Aled Eynon, 07811680497
aoeynon@yahoo.co.uk
Olive Campden, Coed y Pry,
01559 370302
**Prengwyn, Maesymeillion, Tregroes**
Wenna Bevan Jones,
Pantycreuddyn, Prengwyn,
01559 363328
Betty Evans, Caerlyn, Prengwyn,
01559 363610
**Castell Newydd Emlyn** –
Janet Kench, Brynmeillion,
Llandyfriog, 01239 711112
Elgan Jones, Berwyn, 01239 710840
**Rhos/Bryn Iwan –** Miriam James,
Dôl-werdd, Rhos, Llangeler,
01559 370286
**Gwyddgrug** – Yvonne Griffiths,
01559 384468
yvonneg43@gmail.com
**Capel Iwan –**
Rita Davies, Arwelfa 01559 370539
Helen Williams, Black Oak,
01559 370392
**Llanfihangel – ar - Arth –**
Meinir Ffransis, Dolwerdd,
Llanfihangel - ar - arth 01559 384378
Mair Wilson, 01559 384283
mair_wilson@hotmail.co.uk

**TREFNYDD CLWB 100:**
**Haulwen Lewis 01559384279**
**haulwen279@yahoo.co.uk**

**CYSODYDD:**
**Rowena Davies - Franklin**
**01559 362104**

**PRAWF DARLLENYDD**
**MIS Mai -**
**Aled Eynon**

**GOLYGYDD**
**MIS MAI -**
**Guto Prys ap Gwynfor**

**Gwerthir Y GARTHEN**
yn y canolfannau canlynol –
**Llandysul** – Siop CK
Siop Ffab
**Pontsian** — Siop Premier
**Pencader** — Siop Premier
Siop Flodau Tŷ Gwyrdd
**Alltwalis** – Siop Windy Corner
**Drefach Felindre** – Siop Spar
Swyddfa'r Post
**Saron** – Garej Bargod
**Castell Newydd Emlyn** –
Gwynnant
**Caerfyrddin** – Siop y Pentan,
**Llanllwni** – Swyddfa'r Post
**Aberteifi** – Siop Awen Teifi
**Aberaeron** – Llanon House
**Penrhiwllan** - Siop Popeth
Mae **Siop Deithiol Talgarreg** yn gwerthu'r **Garthen** hefyd,
**neu drwy law y cyswllt lleol.**

**Tanysgrifiadau blynyddol tu allan i'r dalgylch** —
Y Garthen drwy'r post
Yvonne Griffiths,
Y Felin,
Gwyddgrug,
Pencader,
SA39 9AX .Ffôn: 01559 384468
**e-bost: yvonneg43@gmail.com**
**£14.50 am 10 rhifyn**

**Dyddiad derbyn deunydd**
**Rhifyn Mehefin:**
**Mai 23**
Os yn bosib, anfonwch eich cyfraniadau ar
e-bost mewn **FFURF WORD YN UNIG**
os gwelwch yn dda at:
**ygarthen@yahoo.com**

**Ni allwn dderbyn cyfraniadau fel rhan o ebost na PDF.**
Argraffwyr: E.L. Jones a'i Fab,
Aberteifi
01239 612251
e-bost: eljonesaifab@btinternet.com

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

**AWEN TEIFI**
23 Stryd fawr, Aberteifi
**Llyfrau Cymraeg, Cryno ddisgiau, cardiau,**
**teganau i blant o bob oed, crysau,**
**Lluniau gwreiddiol a phrintiadau o waith Aneurin Jones a Meirion Jones**
01239 621370

**DAI LEWIS**
DAVID LEWIS FRICS
**Cysyllter â'r Arbenigwyr**
*(sy'n Gymry Cymraeg)*
os rydych am werthu neu brisio
eich fferm, tyddyn, tŷ neu fwthyn
*Ffoniwch:*
**Llandysul 363401 C. N. Emlyn 710481**

**Peiriannau Gardd Dyffryn Teifi**
DREFACH FELINDRE
01559 371093 07445326870
Peiriannau Gardd Gwerthu a Gofalu
Y Gwasanaeth Gorau Bob Amser
e-bost teifivgm@totalserve.co.uk

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN I
EUROPEAN UNION OBJECTIVE I
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Nid yw Pwyllgor Y Garthen na'n noddwyr o angenrheidrwydd yn cytuno gyda phob barn yn y papur

## Cynghori yng Ngyfnod y Coronafeirws-19

## Ychydig o eiriau o waith ac ymdrechion y Cynghorydd Keith Evans, Aelod Etholedig Ward Llandysul ar Gyngor Sir Ceredigion.

Dechreuodd y sôn am y feirws grynhoi momentwm ar ddechrau Mis Mawrth, gyda straeon yn dechrau dod allan o Tseina yn raddol ac yn araf iawn, gyda chryn dipyn o wadu yn ystod y cyfnod cynharaf. Ond o dipyn i beth, fe ddaeth yn amlwg bod y Byd mewn rhyfel gyda'r feirws mwyaf roedd y ddynolieth wedi ei wynebu erioed.

Lledaenodd y feirws ar draws y byd, gan gynnwys Ewrop, a mater o amser oedd hi cyn y byddai'n lledaenu ar draws y moroedd ac i wledydd Prydain. Sôn am fedydd tân, wel i Brif Weinidog gymharol newydd Prydain, mae'n siwr nad oedd Boris wedi breuddwydio am eiliad byddai her mwyaf ei fywyd yn dod i'w ran, a hynny mewn mwy nag un ystyr, a diolch i'r drefn ei fod e' ei hun wedi gorchfygu'r salwch, ond yn anffodus i dros ugain mil o bobl ar draws Prydain, mae'r stori yn wahanol iawn. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y cyfnod hwn gan gofio yn enwedig y meddygon ar nyrsys a dalodd y pris eithaf wrth ein gwasanaethu.

Dros y cyfnod hwn, mae llawer o'n cyfeillion yn ardal y Garthen wedi mynd i'w gwobr hefyd, a chydymdeimlwn yn ddiffuant iawn gyda'r teuluoedd hynny. Mae'n rhyfedd, oherwydd y gwaharddiadau ar symud a chymysgu, ein bod yn methu mynd i'w haelwydydd i gydymdeimlo a chysuro'u teuluoedd fel yw'r arfer a'r traddodiad yn yr ardaloedd yma.

Felly, roedd yn rhaid i Lywodraethau Prydain symud yn gyflym i osod canllawiau yn eu lle i geisio rhwystro, hyd gorau eu gallu, effaith y feirws ar ein cymunedau. Awdurdodau Lleol, hynny yw, y Cynghorau Sir yw'r asiantaeth arferol sy'n cyflwyno'r rhan fwyaf o weledigaeth a rhaglenni'r Llywodraeth ac sy'n bartner allweddol yn y frwydr yma o ymdopi ag effaith y feirws.

Roedd yn rhaid i'r Sir symud yn gyflym i osod rhaglen waith yn ei lle a gosod trefniadau pwrpasol er mwyn sicrhau a gwarchod parhad, hyd gorau ein gallu, gwasanaethau rheng flaen. Roedd yn bwysig i sicrhau parhad hefyd o'r llais democrataidd, er ein bod wedi trosglwyddo llawer o rym i'r Prif Weithredwr Eifion Evans dros y cyfnod penodol hwn. Manteisiaf ar y cyfle yma i ddiolch iddo ef a'r tîm am eu gwaith diflino a blaengar mewn cyfnod anodd tu hwnt.

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol fel Cyngor rhyw ddau fis ynghynt na'r arfer er mwyn sicrhau dilyniant i'r drefn ac o rhagdybio na fyddem yn medru cwrdd yn ffurfiol am gyfnod hir. Yn anffodus felly, gorfu i'r Cyng Peter Davies, Aelod Ward Capel Dewi, ac un o fechgyn Bro'r Garthen, drosglwyddo cadwyn y swydd fel Cadeirydd y Cyngor Sir ynghynt na'r disgwyl. Y Cyfarfod Blynyddol felly oedd y cyfarfod ffurfiol olaf i mi ei fynychu ar yr 20ed o Fawrth, hwnnw yn gyfarfod gyda llai na'r arfer o aelodau yn bresennol, oherwydd oedran rhai ohonynt, a'r ffaith bod rhaid i rai aelodau ynysu eu hunain oherwydd iechyd neu am eu bod yn cydfyw gyda theulu a oedd yn gorfod ynysu.

Mae aelodau'r Cabinet yn cynnal sesiynau briffio yn rheolaidd gyda'r tîm rheoli drwy gyfrwng Zoom, (offer fideo cynhadledda), ac yn ei dro mae'r wybodaeth yn cael ei raeadru lawr i ninnau drwy ein grwpiau. Bydd yr Arweinydd yn ein cynrychioli mewn cyfarfodydd, rhyw ddwywaith yr wythnos gyda chyd-arweinyddion ar draws Cymru i rannu pryderon ac elfennau sy'n cael effaith ar ein darpariaeth o wasanaethau ac i drafod gyda Gweinidogion y Llywodraeth yng Nghymru.

Fel rhan o ddyletswyddau y Cyngor mae rhaid cydweithio gyda nifer o asiantaethau eraill, fel Iechyd, Heddlu, a'r Frigâd Dân, i enwi ond ychydig. Yng Ngheredigion, fel mewn siroedd eraill, mae rhaid gosod mewn lle, cyfleusterau rhag ofn, er enghraifft, defnyddio Canolfannau Hamdden at bwrpas ysbyty dros dro ac yn y blaen.

Fy rôl lleol fel aelod Llandysul yw ceisio cael cymaint â phosib o wybodaeth allan i drigolion y Ward. Gan fwyaf byddaf yn gwneud hyn drwy fy nhudalen Facebook, sef, Cyng/Cllr Keith Evans. Un o'r mannau gorau i drigolion ardal y Garthen parthed trefniadau y Cyngor Sir, yw edrych ar wefannau'r Cyngor Sir priodol am eu hardal. Dull arall y diwrnodau yma, wrth gwrs, yw delio â materion drwy gyfrwng e-bost.

Rwy'n ddiwyd yn siarad gyda pherchnogion busnesau, h.y. y rhai sy'n dal ar agor, i rannu gyda nhw y gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau, oherwydd mae'n bwysig sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw gymorth sydd ar gael iddynt, ac wrth gwrs i geisio cadw eu hysbryd i fyny.

Rwy'n dal i ymdrin gyda gofynion fy etholwyr ynglŷn â gwahanol broblemau ac achosion sy'n bwysig iddynt, wrth reswm. Mae datrys y problemau yn fwy anodd y diwrnodau yma oherwydd mae cymaint o swyddogion yn gweithio o adref yn hytrach nag wrth eu desgiau. Mae swyddfeydd y Cyngor wedi bod ar gau ers yr 20ed o Fawrth i'r cyhoedd ac i ninnau fel aelodau. Dim ond ychydig o bobl sy'n gweithio oddi fewn nawr, gan gynnwys y staff sy'n gyfrifol am wasanaeth Clic. Ffoniwch y llinell gymorth neu danfonwch e-bost iddynt ac fe wnawn sicrhau bod eich cwyn neu bryder yn cael ei drosglwyddo i'r adran briodol a'i ddelio mewn dull broffesiynol.

Rwy'n weithgar iawn hefyd gyda mudiadau fel y Cyngor Cymuned yma yn Llandysul, Cymdeithas Chwaraeon Llandysul, Parc Coffa Llandysul, Calon Tysul, Llandysul Pontyweli Ymlaen, Help Llandysul, Y Pwerdy ym Mhontyweli, heb anghofio fy rôl fel Llywodraethwr yn Ysgol Bro Teifi. Mae'n gyfnod anodd iawn i'r cyrff lleol yma sy'n cael eu cynnal gan wirfoddolwyr gan amlaf. Mae'r Llywodraeth wedi gorchymyn ei fod yn rhaid i llawer o'r mudiadau yma roi terfyn ar eu gwasanaethau dros dro. Golyga hyn wrth gwrs nad oes incwm yn dod i mewn i'w coffrau ond mae'r costau yn parhau.

Dyma ond ychydig o enghreifftiau i chi o'r pwysau sy'n syrthio ar eu hysgwyddau. Gyda'r Cymdeithas Chwaraeon, mae'r gost o gynnal a chadw'r adnodd yn parhau ond mae'r prif ffynhonnell o ariannu'r Gymdeithas wedi ei gwtogi - rwy'n cyfeirio at y Lotto wythnosol, oherwydd mae nifer o'r busnesau sy'n cymryd yr amlennu ar ein rhan wedi gorfod cau. Gobeithio bydd y ffyddloniaid yn ail-ymrwymo i gefnogi ar derfyn y pandemig yma. Mae

Calon Tysul hefyd wedi gorfod cau, ac er bod nifer o unigolion a theuluoedd yn dal i dalu eu debyd uniongyrchol, a diolch o galon iddynt am barhau i wneud hynny, mae elfennau o gostau yn parhau. Pan fyddwn yn ail-agor, gwnewch eich gorau i gefnogi yr adnodd cymunedol gwerthfawr yma. Stori debyg hefyd sydd i'r holl fudiadau eraill.

Diolch i bawb o drigolion Llandysul a'r Cylch sydd yn fwy na heb, wedi ufuddhau i'r gorchmynion sydd wedi eu gosod ar ein cyfer, er mwyn amddiffyn yr NHS a ninnau. Mae hyn wedi golygu, oherwydd yr holl gamau sydd wedi eu cymryd, bod y niferoedd o farwolaethau yng Ngheredigion gyda'r ganran isaf yng Nghymru parthed pob can mil o'r boblogaeth. Nid yw'r frwydr drosodd eto a rhagdybir bydd y "peak" yn ein cyrraedd ni rhywbryd o nawr i ganol y mis, felly mae gofyn i ni ddal i lynnu yn gaeth at y rheolau am gyfnod pellach. Da chi, peidiwch â dadwneud y gwaith da a'r ymdrechion arbennig rydych wedi buddsoddi ynddynt am wythnosau lawer, pa faint bynnag mor anodd yw hyn.

Os bydd angen cymorth arnoch fel darllenwyr y Garthen, cysylltwch â mi ar bob cyfri'.

Cadwch yn ddiogel i gyd. **Cynghorydd Keith Evans**



**Rhai o aelodau Merched y Wawr, cangen Llandysul a fu yn cynnal gwasanaeth i'r trigolion yng nghartrefi Blaendyffryn a Henllan ddechrau mis Mawrth.**

Non Edwards
BA(HONS) ECS MCFHP MAFHP
**Gweithwraig Broffesiynol mewn iechyd traed**
01239 621343
non.edwards@cms-wales.co.uk
Clinic Traed Teifi, 11 Heol y Priordy, Aberteifi

**GWESTY'R PORTH**
**Llandysul**
**Cwrw da ~ Bwyty ~ Prydau Bar**
**Ystafelloedd Gwely En Suite**
**Ystafell fawr ar gyfer Priodasau a Chiniawau**
**01559 362202**

Cynhyrchu Cyfryngau Uwch
Advanced Media Production

## Cyfle i wella eich sgiliau digidol trwy gyfrwng y Gymraeg ac o gysur eich cartref

Yn ystod yr amser digynsail hwn, mae cynhyrchu a dosbarthu digidol wedi dod yn 'ffordd o fyw' i'r mwyafrif ohonom gyda bron pob cyfathrebiad cymdeithasol a phroffesiynol yn cael ei gynnal trwy sianeli digidol. Cyn argyfwng Coronafeirws, derbyniodd prosiect Cynhyrchu Cyfryngau Uwch gyllid gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru i gefnogi busnesau a sefydliadau Cymru i aros ar flaen y gad o ran datblygiadau yn y diwydiant digidol a chyfryngau. Prif amcan y prosiect hwn yw cefnogi cwmnïau a sefydliadau Cymru trwy ddarparu hyfforddiant rhad ar dechnoleg a datblygiadau newydd yn y meysydd cynhyrchu digidol a chyfryngau.

Ychydig a feddyliom y byddai'r fenter hyfforddi arbenigol hon yn dod yn hanfodol i helpu busnesau a sefydliadau i amddiffyn eu hunain rhag effaith argyfwng Coronafeirws.

Trwy gydweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth, cyflwynir ein hyfforddiant mewn fformat hyblyg sy'n ymateb i'r diwydiant ac sy'n galluogi i fyfyrwyr weithio trwy ddysgu o bell â chymorth i ddiweddaru eu gwybodaeth dechnegol, gwreiddio diwylliant ymchwil yn y gweithle ac, os dymunant, weithio tuag at gymwysterau ôl-raddedig wedi'u teilwra i anghenion eu diwydiant. Gan fod y cynllun wedi cael cefnogaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru gallwn gynnig hyfforddiant ar lefel Meistr i fusnesau / gweithwyr ar gyfradd â chymhorthdal mawr o £165.00 y modiwl fesul gweithiwr - mae modiwlau o'r lefel academaidd ac arbenigedd hyn fel arfer yn costio hyd at £1000 felly mae hwn yn arbediad sylweddol. Gellir cyflwyno'r modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog.

Dyluniwyd ein rhaglen sydd ar-lein i raddau helaeth i ganiatáu i fyfyrwyr astudio heb yr angen i gymryd amser allan o'r gwaith ac mae'n ddigon hyblyg i ffitio astudio o amgylch gwaith ac ymrwymiadau eraill. Un o'r sefydliadau sydd eisoes wedi cymryd mantais o'r cynnig hwn yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru, fel yr eglura Annwen Isaac, Rheolwr Adnoddau Dynol y Llyfrgell:

"Rydyn ni'n ymwybodol bod angen hyrwyddo ein gweithgareddau drwy amrywiaeth o sianeli digidol ac mae'n ddisgyblaeth sy'n esblygu'n barhaus. Mae'r cyfle hwn i hyfforddi yn rhoi gwell offer a sgiliau i'n staff er mwyn iddyn nhw allu hyrwyddo gwaith y Llyfrgell ar blatfformau digidol mewn ffordd fwy creadigol ac arloesol, ac mae hefyd yn cyfrannu at eu datblygiad personol parhaus".

**Am ragor o wybodaeth am y rhaglen a'r meini prawf cymhwyso, cysylltwch â'r tîm Cynhyrchu Cyfryngau Uwch ar 07939 203938 neu ccu-amp@aber.ac.uk neu ewch i: amp.aber.ac.uk.**


**Ruth Ceri Jones LL.B.**

***'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'***

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar

**ruthcjones25@aol.com**

(Aelod o Gymdeithas Ysgrifenwyr Ewyllysiau)

**CARTREF HENLLAN**

Aelwyd gartrefol Gymraeg
Bwyd maethlon a gofal arbennig
24 awr y dydd

Perchennog: Mr G T Williams
Metron: Jackie Cannell
Is Reolwraig: Camwy Griffiths
01559 3712 93

***MANSEL GRIFFITHS A'I FAB***

Garej Annwylfan,
Llanfihangel ar arth, Pencader

**Ffôn: 01559 384537**

**Partner ~ Jonsered ~ Husqvarna ~ Efco**

**Gorsaf Prawf MOT**

# CWLWM yn erfyn am ragor o gefnogaeth i'r sector gofal plant

Ym mhedwaredd wythnos y pandemig Coronafirws mae partneriaid CWLWM yn erfyn ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r sector gofal plant, ac i ateb y cwestiynau ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael i'r sector. Heb y gefnogaeth hon, ni fydd yn bosib i'r sector gofal plant gynnal ei hun, na pharhau i gynnig y gofal plant fydd yn angenrheidiol i'r economi sylfaenol yn y tymor canolig a'r hirdymor.

Mae'r sector wedi gweld problemau gydag argaeledd y cynllun saib yn enwedig perthnasedd y cynllun gan wybod na fydd y Cynnig Gofal Plant (heb ffioedd a delir gan rieni) yn ddigon i dalu cyflogau staff.

Problem arall yw diffyg dealltwriaeth *Busnes Cymru* o'r sector. Mae darparwyr gofal plant yn cael eu heithrio o un grant ar ôl y llall, felly nid oes cefnogaeth ariannol ar gael i'w digolledu yn wyneb diffyg incwm.

Meddai Jane O'Toole, Prif Swyddog Gweithredol CPCKC (Clybiau Plant Cymru Kids' Club, un o'r partneriaid CWLWM):

*"Gofynnir i'r Sector Gofal Plant barhau'n agored i gefnogi gweithwyr allweddol. Mae'r rhai sy'n dal i fod ar agor yn gwneud colled ariannol enfawr, ond yn parhau'n agored i wasanaethu eu cymunedau. Rydym yn gofyn am gefnogaeth ddybryd i'r lleoliadau hyn, a'r rhai a gaeodd yn unol â chyngor gwyddonol. Un datrysiad awgrymwn yw adfer y rhyddhad TAW sydd ar hyn o bryd ynghlwm â'r Gronfa Cadernid Economaidd, fel bod sefydliadau gofal plant yn medru ymgeisio am grant o £10,000. Byddai sicrhau y grant hwn i'r holl leoliadau, boed ar agor neu beidio, yn darparu'r gefnogaeth y mae'r lleoliadau yn ei haeddu."*

Mae aelodau CWLWM yn deall bod cefnogaeth yn golygu llawer mwy na thalu cyflogau. Mewn nifer o achosion mae disgwyl i leoliadau barhau i dalu'r rhent yn ddi-dor, felly maent yn ceisio eu gorau i dalu rhent, gwasanaethau ac yswiriant. Nid oes nawdd ar gael i dalu'r costau hyn. Ni fydd cefnogaeth ar gael i ofalwyr plant newydd gofrestredig, nac ychwaith darparwyr gofal plant newydd o dan y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS). Ni fydd y rhai a gychwynnodd weithio ar ôl 5ed Ebrill 2019 yn gymwys ar gyfer unrhyw gymorth o gwbl.

Gwyddom fod o leiaf hanner lleoliadau gofal plant o dan reolaeth pwyllgor gwirfoddol, ac mewn nifer o achosion maent yn sefydliadau anghorfforedig ac felly bydd aelodau'r pwyllgorau yn atebol am unrhyw golled ariannol. Mae aelodau'r pwyllgor, gan fwyaf, yn rhieni sy'n rhoi o'u hamser (tu allan i oriau gwaith arferol) i gefnogi a rheoli eu lleoliad gofal plant cymunedol, sydd yn darparu'r gofal plant sy'n caniatáu iddynt hwy weithio.

Meddai Dr Gwenllian Lansdown Davies, Cadeirydd CWLWM,

*"Teimlwn fod y sector gofal plant yn cael ei anwybyddu, ac ymddengys does neb yn malio. Bydd y sector yn hanfodol os ydym am weld adfywiad economaidd yn y tymhorau byr, canolig a'r hirdymor. Oni chefnogir y lleoliadau nawr, bydd nifer ohonynt yn methu ailagor. Bydd angen cefnogaeth ariannol arnynt i ail-adeiladu. Mae angen sicrwydd arnynt **nawr** bod y gefnogaeth yna."*



**Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin**

Mae **Cwlwm** yn tynnu ynghyd y pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth dwyieithog integredig sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ar draws Cymru yn unol â dull 'system-gyfan' Llywodraeth Cymru.

Mae **Cwlwm** - prosiect a arweinir gan Mudiad Meithrin mewn partneriaeth â Clybiau Plant Cymru, NDNA Cymru, PACEY Cymru a Blynyddoedd Cynnar Cymru - yn tynnu ynghyd y gallu, ar sail cyfoeth o brofiad, i fynd i'r afael â materion yn y sector Gofal Plant a Chwarae.



**Jane O'Toole, Prif Weithredwr Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs**

# Colofn Ben Lake AS

Mae'n anodd iawn canfod y geiriau i ddisgrifio'r argyfwng presennol sy'n wynebu cymunedau, teuluoedd ac unigolion ar draws Ceredigion, Cymru a ledled y byd. Mae disgrifio'r amgylchiadau presennol yn 'anghyffredin' yn ymddangos mor annigonol rywsut. Beth bynnag fo'ch barn wleidyddol, nawr yw'r amser i roi gwleidyddiaeth pleidiol naill ochr ac i bawb ddod at ei gilydd i gefnogi ymdrechion y Gwasanaeth Iechyd a'r sector cyhoeddus i amddiffyn iechyd a lles holl drigolion ein cymunedau.
A dyna'n union beth dwi wedi'i weld yn digwydd ledled Ceredigion dros yr wythnosau diwethaf. Mae degau o grwpiau cymunedol gwirfoddol wedi ymsefydlu'n gwbl organig ar draws y sir er mwyn rhoi cefnogaeth, cymorth ymarferol a chysur i unigolion mewn angen.
Mae busnesau a mudiadau wedi gorfod addasu eu gwasanaethau dros nos er mwyn cwrdd ag anghenion eu cwsmeriaid a'u defnyddwyr. Mae papurau bro'r sir hwythau wedi gorfod ymateb i'r argyfwng, a hynny drwy gynhyrchu a chyhoeddi rhifynnau digidol ar y we, a thrwy wneud hynny, sicrhau bod pobl yn gallu cadw cysylltiad gyda'u cymdogion a'u cymdogaethau – rhywbeth sydd mor eithriadol o bwysig yn y cyfnod tywyll hwn.
Yn bennaf oll, rhaid diolch i'r gweithwyr allweddol hynny sy'n gweithio ar y rheng flaen – ein gweithwyr iechyd, gofalwyr, gweithwyr yn y sector cyhoeddus, gweithwyr mewn siopau hanfodol, ffermwyr, milfeddygon, gyrwyr bysys a cherbydau cludo nwyddau, plymwyr, trydanwyr a gweithwyr cynnal a chadw hanfodol – diolch am ofalu am ein hiechyd, ein lles a'n diogelwch ni oll.
Mae'r modd y mae pobl Ceredgion wedi ymateb i'r argyfwng yn destament i'n gallu ni fel Cymry i gydweithio, i gefnogi, i addasu ac i wneud hyn oll mewn ffordd gadarnhaol. Ry'n ni gyd wedi gorfod tynnu at ein gilydd, wedi gorfod addasu ein patrymau byw, wedi gorfod estyn llaw i helpu eraill, wedi gorfod dysgu gwneud pethau mewn ffyrdd gwahanol, ac wedi dysgu gwerthfawrogi'r pethau hynny ro'n ni'n eu cymryd mor ganiataol o'r blaen.
Os cewch gyfle, gwyliwch a gwrandewch ar 'Mae', cerdd gan Mererid Hopwood sy'n ymateb i'r argyfwng presennol ac sy'n ein hatgoffa ni oll bod 'amser gwell i ddod': https://www.bbc.co.uk/iplayer/episode/p088v0z0/mae
Diolch o waelod calon i bawb sy'n gweithio er lles ein cymunedau drwy'r argyfwng hwn. Cadwch yn ddiogel, un ac oll.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Ysgolion Ceredigion yn creu 2,800 o feisorau newydd

Mae ysgolion uwchradd Ceredigion wedi mynd yr ail filltir i gynhyrchu mwy na 2,800 o feisorau mewn ymateb i argyfwng y coronafeirws.
Mae pob un o adrannau Dylunio a Thechnoleg ysgolion uwchradd y sir wedi bod yn rhan o'r broses hon, sef Ysgol Henry Richard, Ysgol Penglais, Ysgol Penweddig, Ysgol Uwchradd Aberaeron, Ysgol Bro Pedr, Ysgol Uwchradd Aberteifi ac Ysgol Bro Teifi.
Dros gyfnod o ychydig wythnosau, mae athrawon yr adrannau hyn wedi creu feisorau o blastig gan ddefnyddio peiriannau laser neu beiriannau argraffu 3D yr ysgolion, gyda Chyngor Sir Ceredigion yn darparu'r deunyddiau.
Mae feisorau o'r fath yn angenrheidiol i ddiogelu gweithwyr rheng-flaen Ceredigion, ac mae parodrwydd yr athrawon i gynnig cymorth ymarferol mewn adeg heriol yn destun clod.
Dywedodd Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant Cyngor Sir Ceredigion: "Rydym yn hynod falch o'n gweithlu, ac mae ymroddiad anhygoel staff ein hadrannau Dylunio a Thechnoleg i ddarparu feisorau angenrheidiol yn un enghraifft o'r modd y mae athrawon Ceredigion wedi mynd yr ail filltir i helpu eraill."

# CFFI CEREDIGION

Am fis swreal! Pwy fydde'n credu mis yn ôl, basen ni yn y sefyllfa yma? Dim gweithgareddau CFfI, dim cymdeithasu a dim cwrdd â ffrindiau. Cyfarfodydd yn cael eu cynnal dros y we, a'r unig ddull o gadw mewn cysylltiad yw drwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol.

Y gweithgaredd diwethaf i gael ei gynnal o fewn y Mudiad yn Sirol oedd cyfweliadau'r swyddogion newydd a gynhaliwyd cyn y *lockdown*. O ganlyniad bu rhaid canslo'r Ddawns Dewis Swyddogion a chyhoeddwyd y swyddogion newydd dros y cyfryngau cymdeithasol. Llongyfarchiadau enfawr i Rhiannon Davies, Caerwedros ar gael ei dewis yn Frenhines y Sir, Cennydd Jones, Pontsian ar gael ei ddewis yn Ffermwr Ifanc y Sir ac i Heledd Besent, Mydroilyn; Bleddyn Davies, Caerwedros; Lowri Jones, Lledrod ac Eiry Williams, Llangwyryfon ar gael eu dewis yn Ddirprwyon y Sir. Edrychwn ymlaen at glywed mwy am ein swyddogion newydd yn y rhifyn nesaf.




**Top chwith i'r dde: Rhiannon Davies, Caerwedros Brenhines y Sir, Cennydd Jones, Pontsian Ffermwr Ifanc y Sir**
**Gwaelod chwith i'r dde: Heledd Besent, Mydroilyn; Bleddyn Davies, Caerwedros; Lowri Jones, Lledrod a Eiry Williams, Llangwyryfon sef Dirprwyon y Sir.**

Yn anffodus, mae pob gweithgaredd y Ffermwyr Ifanc, o'r clwb wythnosol i'r Rali wedi'u canslo ond nid ydym yn hoffi bod yn segur! Mae nifer o'n haelodau wedi bod yn brysur yn helpu'r gymuned wrth siopa, casglu presgripsiwn neu sgwrsio â phobl fregus yn eu hardaloedd. Os oes unrhyw un angen cymorth mewn unrhyw ffordd, gellir cysylltu efo swyddfa'r CFfI ar 01570 471 444, neu drwy e-bost ar anne@yfc-ceredigion.org.uk.

Mae ein trefniadau a'n bywydau ni i gyd wedi newid yn llwyr, a dyma gipolwg ar fywydau rhai o aelodau'r Sir dros y mis diwethaf a'u tips nhw yn ystod y *lockdown*.

### Anest James o Glwb Caerwedros oedd y cyntaf i sgwrsio. Mae Anest yn weithwraig gymdeithasol gynorthwyol gyda Chyngor Sir Ceredigion ac yn astudio i fod yn weithwraig gymdeithasol.

"Rhan fawr o'r swydd a'r mwyaf pwysig yw mynd mas i weld unigolion yn y gymuned ac asesu eu hanghenion a cheisio helpu nhw gyda chymorth byr dymor neu drefnu gwasanaethau hir dymor. Yn y cyfnod 'ma, rwy dal yn gweithio bob dydd, ond o gartre'. Ma' hyn wedi neud y swydd o ddydd i ddydd yn anodd gan fod dim hawl 'da ni fynd i weld unigolion yn eu cartrefi. Ar y funud, ni yn neud asesiadau dros y

ffôn a phrosesu unrhyw wasanaethau sy' angen fel arfer. Pan ddaeth y *lockdown* o'n i ynghanol neud darn o waith gyda thîm arall ar gyfer fy astudiaethau, ond ma popeth 'on hold' nawr. Y pethe mwyaf positif fi wedi gweld yn ystod y cyfnod ma, yw shwt ma cymunedau wedi tynnu at ei gilydd i helpu'r unigolion mwyaf bregus. Mae hefyd gweld y gydnabyddiaeth a'r gefnogaeth mae'r NHS wedi derbyn yn ystod y cyfnod 'ma wedi bod yn anhygoel."
"Yr unig tips bydden i yn rhoi i bobol yn *lockdown* yw i dreial cadw rhyw fath o *routine*. Hwnna yw'r peth gorau sy' wedi gweithio i fi yn ystod y cyfnod 'ma."

## Mae bywydau pawb wedi dod i stop, ac mae nifer o fyfyrwyr wedi gweld newid byd. Un o'r rhain yw Martha Dafydd o Glwb Llangeitho sy'n fyfyriwr 3ydd blwyddyn yn astudio Hanes a Theatr ym Mhrifysgol Aberystwyth.

"Dwi wedi gorfod symud nôl adref at Mam a Dad, yn hytrach na byw yn Aberystwyth gyda ffrindiau. Does dim hawl gyda myfyrwyr fynd i Gampws y Brifysgol i gael adnoddau i ysgrifennu traethodau ac mae'r darlithoedd i gyd ar-lein. Er gwaetha' bod popeth wedi cau yn y Brifysgol, mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau sydd eu hangen ar-lein. Mae llawer o'r llyfrau yn *e-books* a ryn ni'n cael cefnogaeth arbennig gan y darlithwyr a staff y Brifysgol. Os bydda i'n graddio'r flwyddyn yma, byddaf yn derbyn y cymhwyster, ond mae'r seremoni wedi ei ohirio, felly does dim sicrwydd pryd bydd e'n cael ei ail-drefnu."
"Beth allwn ei wneud yn ystod y cyfnod hwn? Gwnewch rywbeth cynhyrchiol, byddwch chi'n teimlo'n well! Gwrandwch ar gerddoriaeth a chadwch mewn cysylltiad gyda theulu a ffrindiau."

## Bu dydd Llun y Pasg yn ddiwrnod prysur iawn i Glwb Pontsian, i'r aelodau a'u cyfeillion. Gwenyth Richards fu'n rhannu'r hanes.

"Ar ddydd Llun y Pasg eleni, cynhaliwyd her yn y Clwb i godi arian tuag at unedau gofal dwys Ysbyty Bronglais a Glangwili. Y targed gwreiddiol oedd i gerdded/rhedeg/seiclo/rhwyfo o Gaerdydd i Gaergybi o'n gerddi wrth ddilyn canllawiau'r Llywodraeth. Ces i'r syniad gwreiddiol wythnos yn union cyn yr her ar ôl i Dad a Mam ddangos symptomau Covid-19! Er iddyn nhw fod yn ddigon ffodus i beidio angen gofal dwys, nethon ni fel teulu weld yn union gymaint o straen sydd ar y gwasanaeth iechyd. Roedd pawb o'r Clwb yn hollol gefnogol yn ystod y cyfnod ac o fewn 6 diwrnod yn unig, trwy waith tîm anhygoel a sawl cyfarfod ar zoom, roedd yr her ar waith a phawb yn awyddus i ni fel Clwb ddangos gwerthfawrogiad tuag at weithwyr GIG. Roedd un yn creu neges *facebook*, llall yn esbonio sut i ddefnyddio *strava*, rhai yn cysylltu gydag enwogion i hysbysebu'r her ac eraill yn cadw'r bwrlwm i fynd gyda digon o ddwli! Roedd yna deimlad rhyfedd, positif ac emosiynol iawn yn perthyn i'r her ddydd Llun. Pob un gyda'r Clwb, y GIG a phendantrwydd i fwrw'r targed ar flaen ei feddwl. Da'th hi'n eithaf amlwg dwy awr i fewn i'r her, ein bod ni wedi llwyddo i gyrraedd y targed ac wedi dechrau ar ein ffordd yn ôl o Gaergybi! Erbyn diwedd y dydd, fe wnaeth y Clwb redeg i Baris o Bontsian ac yn ôl gyda sawl milltir yn weddill a 150 o bobl yn cymryd rhan! Yn bwysicach na hyn, fe lwyddwyd i godi dros £8,000 tuag at y ddwy uned bwysig yma."
"Fy nhip i, byddwch yn gall! Cyfnod byr yn unig yw'r *lockdown* mewn gwirionedd, felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dilyn canllawiau'r Llywodraeth. Hefyd, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dilyn grwpiau positif sydd ar wefannau cymdeithasol - mae e wir yn help! Yn bwysicach, peidiwch gwylio'r newyddion drwy'r dydd! A bytwch ddigon o siocled!"

## Cogydd teithiol Cyngor Sir Ceredigion yw gwaith dyddiol Mirain Griffiths o Glwb Llangwyryfon sy'n coginio yn ysgolion a chartrefi hen bobl ar draws y Sir.

"Dwi ar hyn o bryd yng nghartref gofal Bryntirion, Tregaron, yn llawn amser er mwyn lleihau'r risg o fynd o un lle i'r llall. Mae cyfyngiadau'r Llywodraeth wedi 'neud gwahaniaeth i fi yn y gwaith ac yn bersonol. Y gwahanieth mwya' o fewn y gwaith yw bod lot o reolau newydd wedi cael eu rhoi mewn lle er mwyn gofalu am yr holl hen bobl, a ni fel staff, a trial cofio'r ffyrdd newydd o neud y tasgau arferol o ddydd i ddydd mewn ffyrdd gofalus er mwyn trial osgoi *cross contamination*. Y gwahaniaeth mwya' i fi yn bersonol, yw faint o arian wi'n safio wrth bido trampo a mynd i bobman."
"Y peth mwya' positif fi wedi neud yn y *lockdown* hyn yw prynu beic newydd. Dwi'n trial neud bach o ymarfer corff, mynd allan ar y beic rhyw ben bob dydd, ond y broblem fwya' sy' gyda fi fel cogydd yw bo fi'n mwynhau coginio, felly gan fod digon o amser, ma lot o gacs yn cael eu gwneud!"

## Tybed sut effaith mae Covid-19 wedi cael ar filfeddyg o Glwb Tal-y-bont, Catrin Davies?

"Does dim llawer o wahaniaeth o ran gwaith, 'da ni dal i weithio, ond trio cadw at y *social distancing* a dilyn canllawiau'r Llywodraeth ag ati. Mae lot o'n gwaith ni yn *emergencies*, felly'n gorfod parhau o ddydd i ddydd yr un peth. Yn bersonol, mae lot o wahaniaeth! Dwi'n colli allan ar ddigwyddiadau, cymdeithasu, Ffermwyr Ifanc ag ati."

"Un o'r pethau mwyaf cadarnhaol yn ystod y cyfnod yw bod lefelau llygredd y wlad yn dod lawr er gwaetha'r ffaith bod gwartheg dal i gachu a ffermwyr dal i weithio!"

"Chwilio am rywbeth i'w wneud? Bydden i'n argymell pobol i ddechrau dysgu pobi, ond bechod bod blawd yn brin a defnyddio eu hamser i ddysgu sgil newydd."

## Mae Angharad Davies, Penparc yn un o nifer o aelodau ar draws y Sir sydd wrthi'n gwneud gwahaniaeth yn eu hardaloedd ac yn dod â chysur i nifer o drigolion bregus y gymdeithas.

"Roedden ni eisiau gwneud rhywbeth i helpu'r gymuned, felly penderfynodd merched hŷn y Clwb roi o'u hamser i'r bobl leol sydd angen rhywun i siopa bwyd, casglu meddyginiaeth neu unrhyw fater oedd gyda nhw. Mae yna lawer o bobl fregus yn ein hardal ni, yr henoed, rhai sydd efo salwch a rhai sydd heb deulu yn byw yn agos atynt. Felly, ni wedi bod yn brysur dros yr wythnosau diwethaf, a bydd hyn yn siwr o barhau yn yr wythnosau i ddod. Rwyf wedi cael nifer o bobl sydd yn byw ar ben eu hunain yn ffonio am sgwrs fach, sydd, gobeithio, wedi rhoi gwên ar eu hwynebau. Mae wir yn rhoi gwên ar fy wyneb i i helpu'r bobl leol a gweld y bobl fregus yn y gymuned yn hapus. Mae ein cyfraniad ni i helpu'r gymuned yn fach, ond mae'r diolchiadau yn ddiddiwedd."

"Yn yr wythnosau i ddod, fel myfyriwr nyrsio, byddaf yn mynd i weithio llawn amser yn yr Ysbyty i edrych ar ôl cleifion efo Covid-19 ac i helpu mewn pa bynnag ffordd arall alla i. Roedd yn sioc fawr i gael fy ngalw mor gyflym cyn dechrau fy ngyrfa fel nyrs. Mae'r ansicrwydd o beth sydd i ddod yn gwneud i fi deimlo'n nerfus, ond fi'n siwr bydd digon o gymorth ar gael i fy helpu. Mae'r cyfle i ddysgu yn un rwyf yn edrych ymlaen ato ac rwyf yn amlwg eisiau helpu'r cleifion mewn unrhyw ffordd alla i. Mae'n hynod o galed iddyn nhw i beidio cael teulu na ffrindiau yn agos atyn nhw yn ystod eu cyfnod mewn ysbyty, felly byddaf yn teimlo fel fy mod wedi gwneud rhywbeth i'w helpu nhw i fod mor gyfforddus ag sy'n bosib yn ystod yr amser dychrynllyd 'ma."

**Yn sicr, dyma yw nod y Ffermwyr Ifanc yn ystod y cyfnod afreal 'ma, edrych ar ôl ein gilydd a rhoi cymorth mewn unrhyw fodd. Tan y tro nesaf, cadwch yn ddiogel, Elliw ac Elin**

ARWYN VOBE ACCOUNTANCY LTD.
ACCA
CYFRIFYDD SIARTREDIG
Maesowen, Rhydowen, Llandysul, Ceredigion, SA44 4PY

- Cyfrifon Blynyddol ac Interim
- Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
- Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
- Cyflogau, Pensiwn a CIS
- Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar 01545 590307 neu
ebost arwyn@avaccountancy.cymru

ffab
Llandysul
Anrhegion unigryw
Siop Gomerian
Stryd y Gwynt · Llandysul
Ceredigion SA44 4BD
01559 362060
Dilynwch ni ar 'Facebook'



## Wythnos Cymorth Cristnogol - ar lein!

Mewn ychydig wythnosau, mae pandemig y Coronafirws wedi creu newid rhyfeddol yn ein cymdeithas.

Mae'r haint wedi effeithio pob rhan o fywyd. Daeth â dioddefaint ac ansicrwydd i gymaint, yma a thramor, gan wthio'i hun i flaen ein meddwl, ein sgyrsiau a'n gweddïau. Ac rydan ni i gyd yn gorfod addasu o'i oherwydd.

Mae eglwysi Cymru hefyd wedi addasu, wrth iddynt gael eu cau allan o'u hadeiladau. Ond mae nifer wedi ymateb i'r her a bellach ceir gwledd o oedfaon a myfyrdodau ar lein i'n helpu i barhau i addoli.

Yn yr un ffordd, mae Cymorth Cristnogol hefyd yn gorfod addasu. Am y tro cyntaf ers degawdau lawer, ni allwn gynnal Wythnos Cymorth Cristnogol arferol ym mis Mai eleni. Ond tydi hynny ddim yn golygu ein bod am wneud dim.

Bydd cyfle i gynnal y gweithgareddau arferol yn yr hydref, ond mae cyfle i ymuno mewn gweithgareddau ar lein ym mis Mai. Mae Trefn Gwasanaeth, Gweddïau a Nodiadau Pregeth i gyd yn barod ar ein gwefan. Gallwch eu defnyddio ar eich cyfrifiadur neu ddyfais, neu eu hargraffu ar bapur adref.

I'r eglwysi hynny sy'n paratoi oedfaon ar lein pob Sul i'w haelodau, beth am ddefnyddio'r Drefn Gwasanaeth arbennig sydd wedi ei pharatoi ar gyfer Sul 10 Mai? Mae'n troi o amgylch yr arfer pwysig o olchi dwylo.

Yn ychwanegol bydd gennym ddefosiwn dyddiol ar fideo ar ein cyfryngau cymdeithasol a chwis ar Facebook i Gymru gyfan ymuno ynddo! A does dim yn eich atal i greu eich syniadau codi arian ar lein eich hun. Byddem wrth ein bodd cael dathlu'ch syniadau creadigol.

Meddai Cynan Llwyd, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru dros dro, 'Mae wedi bod yn wych derbyn negeseuon cefnogol gan ein cefnogwyr tuag at ein chwiorydd a'n brodyr dramor, a phobl yn gofyn sut allen nhw barhau i gefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol mewn cyfnod mor anodd.

'Rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch yn gallu ymuno yng ngweithgarwch yr Wythnos ar lein ym mis Mai, wrth inni gynnig adnoddau arbennig i'ch helpu i weddïo a chodi arian dros y rhai a effeithir gan dlodi.

'Nid yw cariad yn darfod byth. Mae'r Coronafirws yn ein heffeithio i gyd. Ond mae cariad yn ein huno i gyd. Gadewch inni i gyd uno dros Wythnos Cymorth Cristnogol a sefyll mewn undod dros y mwyaf bregus yn ein byd.' Cewch hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf a'r adnoddau ar ein gwefan - https://www.christianaid.org.uk/get-involved-locally/wales/coronafirws

***Llongyfarchiadau i:***

- Breian a Dwynwen Teifi, 15 Parc yr Ynn, Llandysul ar ddod yn dadcu a mamgu, mab i Llyr a Yerong - Jac, brawd i Osian.

***Penblwydd hapus i:***

- Mair Davies, Brynmair, Prengwyn ar ei phenblwydd yn 85 oed.
- Robbie Bull, Dyffryn March, Prengwyn ar ei phenblwydd yn 18 oed.
- Menna Jones, Arfryn, Llandysul ar ei benblwydd yn 30 oed.
- Dyfan Thomas, Claymore, Croeslan ar ei benblwydd yn 21 oed.

***Cydymdeimlwn â theuluoedd a ffrindiau y diweddar:***

- Mary Thomas, Llygad yr Haul, Talgarreg (Cwmdyllest, Pontsian gynt).
- Maisie Davies, Coedmor, Llandysul.
- Eilir Jones, Glantwely Fach, Pencader.
- Anita James, Pencader a Llandysul.
- Barry Crutchley, The Bungalow, Plwmp, Llandysul.
- Megan Jenkins, Cwmbran (Lancwm, Tregroes gynt).
- Islwyn Jones, Cil-llwch, Dihewyd.
- Mary Hannah Williams, Hillcrest, Rhos, Llandysul.

# Adolygiad Hanna Evans 19/03/2020


Cardiff Student Media




Mawr oedd fy nisgwyliadau wrth fynd i Theatr Felinfach i weld perfformiad oedd yn deillio o lyfr gwych sydd wedi ennill y wobr Llyfr y Flwyddyn, 2019: Llyfr Glas Nebo gan Manon Steffan Ros. A dyma yn union a welais o'r eiliad gychwynnol i'r eiliad olaf. O'r eiliad gyntaf roedd yr ôl-fflachiadau wedi dal fy sylw ac roeddwn i yn gwybod bod hon yn mynd i fod yn ddrama wych.

O'r dechrau, roedd y set a goleuadau wedi gosod naws cryf i'r ddrama, ble roedd y thema o fyw yn syml iawn yn amlwg. Roedd y set yn allweddol i drosglwyddo neges Manon Steffan Ros bod byw yn syml yn hawdd gyda'r bobl rydych chi yn eu caru. Hynny yw, does dim angen technoleg ac felly i fod yn hapus a gan amlaf, rydych yn hapusach wedi cael saib oddi wrth eich ffôn neu gyfrifiadur. Ac mae Rowenna a Siôn yn esiampl berffaith o hyn gan eu bod nhw yn meddwl y byd o'i gilydd. Set syml ond effeithiol oedd hi: sgaffald, carreg a phridd fel gardd nad oedd yn tynnu sylw bant o'r cymeriadau ond wedi cael ei ddefnyddio yn broffesiynol iawn i wneud y mwyaf o'r lle cyfyng oedd ganddynt.

Addasiad gan gwmni'r Frân Wen yw hon gyda'r holl actorion yn dweud y stori yn wych. Roedd e'n bleser gweld y berthynas rhwng Rowenna (Tara Bethan) a Siôn (Eben James) yn datblygu ac yn mynd o nerth i nerth. Ar ddechrau'r perfformiad, roeddwn i wedi drysu braidd gyda'r bobl wahanol yn croesi'r llwyfan ac yn cario'r pypedau ond fe ddaeth yn amlwg wedi iddi barhau am gyfnod beth oedd pwrpas pawb a phopeth. Roedd pyped Dwynwen wedi ei grefftio yn wych ond yn bersonol, rydw i'n credu gallai effaith yr ymbelydredd fod wedi cael ei dangos yn fwy amlwg ar ei hwyneb hi. Roedd y criw wedi gwneud yn arbennig i beidio effeithio ar lif naturiol y ddrama ond yn sicrhau bod popeth yn ei le.

Beth oedd yn unigryw am y perfformiad yma oedd pa mor syml ond effeithiol tu hwnt oedd hi. Defnyddiwyd trosleisio i esbonio ambell ddarn yn bellach – roeddwn i yn hoff iawn o effaith hwn ar y ddrama o ba mor bersonol oedd y ddau wrth gofnodi'r digwyddiadau yn y llyfr glas ond digon parod i siarad a chydymdeimlo gyda'i gilydd, er nad oeddent yn rhannu popeth gyda'i gilydd. Wedi dweud hynny, roedd e'n rhyfedd i weld pa mor gryf oedd y berthynas rhwng y ddau gan ystyried difrifoldeb beth oeddent yn cadw oddi wrth ei gilydd. Roedd y gwisgoedd yn syml ond yn dangos yn glir yr elfen ôl-apocalyptaidd yn ogystal â'r golau pwl. Roeddwn i'n llawn edmygedd o'r ffordd roedd y golau wedi cael ei ddefnyddio i ychwanegu at y naws ac i dynnu sylw i'r trobwynt. Roedd y cyfan gyda phwrpas ac yn cael ei gyflawni i'w llawn botensial i greu drama hawdd iawn ar y llygad.

Roeddwn yn hoff iawn o ba mor syml oedd gwisgoedd yr holl gymeriadau. Does dim byd yn waeth na gwylio rhywbeth ac yn gorfod canolbwyntio yn galed i beidio edrych ar ffrog lachar cymeriad ond, roedd y gwisgoedd i gyd yn syml ac yn cydlynu gyda'r thema yn wych. Doedd dim un adeg yn ystod y ddrama pan oeddwn i wedi colli diddordeb – roedd rhywbeth gwahanol yn digwydd trwy'r amser ond doedd e ddim yn galed o gwbl i'w ddilyn. Credaf fy mod wedi manteisio wedi darllen y nofel cyn gwylio'r ddrama, oherwydd teimlaf byddech wedi drysu braidd o'r ôl-fflachiadau ond wedi dal naws y stori rhywfaint. Wrth ddarllen y nofel cyn gwylio'r ddrama roeddwn i yn medru cyfeirio yn ôl i'r stori a gweld lluniau mwy manwl a chlir yn fy meddwl.

Doedd dim cerddoriaeth wedi cael ei defnyddio ond roedd y geiriau pwerus a gweithredoedd wedi gosod y naws yn grêt. Roeddwn i yn hoff iawn o'r ffordd roedd y set yn cael ei ddefnyddio i wneud amryw o ddarnau oedd yn cydlynu'r cyfanwaith i gyd at ei gilydd.

Cefais brofiad gwych wrth weld y cynhyrchiad yma wrth deimlo bron pob teimlad o dan yr haul! Wrth adael y theatr, roeddwn i yn teimlo ton cryf o emosiwn cymysg gan fy mod wedi syfrdanu o'r ddrama ond yn drist wrth wylio diweddglo cryf y ddrama. Byddaf bob tro yn cofio pan ddaeth Y Terfyn a'r ffordd cafodd hwn ei bortreadu yn y ddrama wych hon. Mawr oedd fy nisgwyliadau ond rydw i yn ddigon bodlon i roi 9.5 allan o 10 i'r ddrama hon. Byddwn yn argymell pawb i wylio'r ddrama hon pe baen nhw'n cael y cyfle!

cyhoeddwyr ac argraffwyr y lolfa
publishers & printers
Y Lolfa Cyf. Talybont Ceredigion Cymru SY24 5HE
T +44(0)1970 832 304 F 832 782 ylolfa@ylolfa.com www.ylolfa.com

## Llyfr newydd i ddathlu'r twf mewn cefnogaeth i annibyniaeth!

Mae Gwasg y Lolfa'n paratoi cyfrol ddwyieithog i drafod a dathlu'r twf mewn cefnogaeth i Annibyniaeth i Gymru. Bydd y gyfrol yn cynnwys detholiad o straeon gan unigolion sydd wedi tystio i'r twf yma ers Ewros 2016, sydd wedi ymuno â'r ymgyrch yn sgil refferendwm Brexit neu wedi penderfynu yn nyddiau'r Coronavirus mai annibyniaeth i Gymru yw'r unig ffordd ymlaen.

Meddai golygydd y gyfrol, Mari Emlyn: "Byddai'n dda cael straeon o bob cwr o Gymru yn nodi pam eich bod chi wedi dewis cefnogi annibyniaeth i Gymru. Beth oedd y sbardun i chi gefnogi'r ymgyrch? Pam bod angen annibyniaeth? Byddai'n dda hefyd pe gallech anfon lluniau ohonoch chi a'ch teulu/ffrindiau i gyd-fynd â'ch profiad – yn yr Ewros yn 2016, mewn cyfarfodydd canghennau Yes Cymru, ar un o'r gorymdeithiau dros Annibyniaeth, o fewn eich cymuned neu yn eich cartref yn ystod y *lockdown*."

Cysylltwch gyda Mari Emlyn i gynnig eich lluniau a'ch straeon: mari.emlyn@btinternet.com. Dyddiad cau derbyn deunydd yw **1 Mehefin, 2020.**

## Cystadleuaeth Côr Cymru yn dathlu'r deg

Ymhen blwyddyn bydd un o gorau Cymru yn ennill teitl Côr Cymru 2021 a gwobr ariannol o £4,000 a chael y cyfle arbennig i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Côr Eurovision.

Heddiw, cyhoeddodd S4C a chwmni teledu Rondo fanylion cystadleuaeth 2021.

Dyma'r degfed tro i brif gystadleuaeth gorawl Cymru gael ei chynnal ac ers y cychwyn yn 2003 nod y gystadleuaeth yw cynnal a chodi safonau corawl Gwlad y Gân.

Mae 'na bump categori yn y gystadleuaeth – corau plant, corau ieuenctid, corau cymysg, corau lleiisau unfath a chorau sioe. Bydd panel o feirniaid rhyngwladol yn dewis hyd at bedwar côr ymhob categori i berfformio yn y rowndiau cyn-derfynol ym mis Chwefror 2021. Mae pob côr sy'n cyrraedd y rowndiau cyn-derfynol yn derbyn £500 gyda enillydd y categori yn ennill £1,500.

Bydd y pump côr gorau o'r rowndiau cyn-derfynol, ym marn y beirniaid rhyngwladol, yn cael eu dewis i berfformio yn y ffeinal fawr ar Fai 2ail yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ac yn fyw ar S4C. Bydd gwobr i'r arweinydd gorau a gwobr am y perfformiad gorau gan gôr na fydd yn cyrraedd y ffeinal.

Y cam cyntaf yw recordio sain y corau yn eu cynefin ddechrau Rhagfyr 2020 pan y bydd angen i'r corau berfformio rhaglen o 6-8 munud o gerddoriaeth.

"Mae'r gystadleuaeth hon yn un o gonglfeini digwyddiadau S4C ac yn un ry'n ni'n falch iawn ohoni," meddai Elen Rhys, Comisiynydd Adloniant S4C. "Mae'n lwyfan gwych i gorau Cymru ac mae'n beth braf gallu arddangos talentau corawl Cymru ar S4C."

Mae enillwyr y gorffennol yn cynnwys Ysgol Gerdd Ceredigion, Cywair, Côr Heol y March, Serendipity, Côr y Wiber a Chôr Merched Sir Gâr.

Bydd cyfle i gorau ysgolion cynradd hefyd gystadlu yng nghystadleuaeth Côr Cymru Cynradd gyda'r ffeinal ar nos Sadwrn 1af o Fai 2021 a ffeinal Côr Cymru ar 2ail o Fai 2021.

Bydd y rowndiau cyn-derfynol a'r 2 ffeinal yn cael eu darlledu ar S4C.

**Am fwy o wybodaeth ewch i www.s4c.cymru/corcymru**

**www.rondomedia.co.uk**

# Yr Urdd yn talu teyrnged i Lywydd Anrhydeddus y mudiad



Gyda thristwch y mae Urdd Gobaith Cymru yn talu teyrnged i un o Lywyddion Anrhydeddus y mudiad, Bob Roberts, a fu farw ddoe (Dydd Mercher, 22 Ebrill).
Bu Bob Roberts, ag Ann ei briod, yn hynod weithgar a chefnogol i'r Urdd dros ddegawdau. Bu Bob yn Drysorydd am naw mlynedd ac yn Gadeirydd am chwech mlynedd, yn Ymddiriedolwr ac roedd yn parhau i fod yn Llywydd Anrhydeddus.
Yn wreiddiol o ardal Harlech a Phennal, bu Bob Roberts yn byw yn ardal Llandeilo yna Llanedi erbyn hyn. Treuliodd ef a'i wraig flynyddoedd yng Nghaerdydd gan weithio'n ddiflino i gynorthwyo gyda rhedeg canolfan yr Urdd ar Conway Road yn yr adeg honno.
Yn ogystal â chefnogi ar lefel leol, sicrhaodd Bob Roberts sylw cenedlaethol i'r mudiad a oedd yn agos iawn at ei galon. Bu ef ac Ann yn ganolog ac yn hynod o lwyddiannus wrth drefnu gêm rygbi fawr i ddathlu 50 canfed penblwydd yr Urdd yn 1972. Gelwid hi yn Gêm y Jiwbilî, gyda dau gawr y byd rygbi yn arwain dau dîm - Barry John, yn ei gêm olaf, a Carwyn James – a dros 35,000 o gefnogwyr yn gwylio.
Meddai Siân Lewis, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru:
"Roedd Bob Roberts yn angerddol am yr Urdd a'r hyn yr oedd y mudiad yn ei gynrychioli. Roedd yn barod i drafod, siarad a dadlau gydag unrhyw un er budd yr Urdd. Bu'n hyrwyddo achos yr Urdd ar lefel wleidyddol yn y Swyddfa Gymreig, cyn dyddiau'r Cynulliad, gan ofalu bod Ysgrifennydd Gwladol ar ôl Ysgrifennydd Gwladol, yn cefnogi datblygiad y Mudiad. Mae'n diolch yn fawr iddo."
Meddai Cadeirydd yr Urdd, Dyfrig Davies:
"Oni bai am waith caled, gwirfoddol Bob fe fyddai'r Urdd wedi gweld hi'n anodd iawn i barhau ar adegau – er enghraifft adeg streic yr athrawon ac adeg Clwy Traed a'r Genau. Bu Bob ac Ann hefyd yn gefn mawr i mi yn bersonol wrth ddod mewn i deulu'r Urdd.
"Roedd Bob yn meddu ar ddawn i siarad yn blaen mewn pwyllgor ac i adael unrhyw anghydweld o fewn ffiniau pwyllgor. Roedd ei siort yn brin – a'i barodrwydd i weithio dros bob peth da a chyfiawn, yn anhygoel.
Mae'n rhyfedd i ni yn yr Urdd golli dau o'n Llywyddion Anrhydeddus mewn cyfnod mor fyr – Prys Edwards a Bob Roberts - dau a roddodd yn ddiflino i'r mudiad. Pan ddaw'r amser priodol, ein braint fydd coffau'r ddau gyda chydweithrediad eu teuluoedd yn y modd mwyaf addas."
Mae'r Urdd fel mudiad yn anfon ein cydymdeimlad diffuant at ei briod Ann a'u plant.





## Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, 18 Mai 2020 – Stopio'r Cloc ac Ailddechrau

Thema neges eleni yw dyhead pobl ifanc i weld y byd yn gwrando ac yn dysgu o argyfwng feirws Covid-19. (urdd.cymru/heddwch)
Mae'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn unigryw i Gymru, ac wedi ei danfon yn flynyddol ers 98 o flynyddoedd - dyma'r unig neges o'i math yn y byd.
<u>Gofynnaf am eich cefnogaeth i helpu pobl ifanc Cymru ar y 18fed o Fai i wneud hon y neges fwyaf mewn hanes.</u>
Bydd y neges yn cael ei chyhoeddi o gyfrifon cymdeithasol Urdd Gobaith Cymru ar ddydd Llun y 18fed o Fai ac rydym yn gofyn i chi wneud o leiaf 1 o'r 3 peth canlynol:

1. Aildrydarwch / postio y neges ar eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar y 18fed o Fai gyda
   - Emoji baner eich gwlad chi / Emoji y byd / Eich hoff Emoji ac #heddwch2020
2. Paratowch ymateb i'n neges ni - gall hyn fod yn llun/geiriad /gair o gefnogaeth /lluniau / fideo /cân gan ddefnyddio #heddwch2020 neu ei ebostio at heddwch@urdd.org
3. Anogwch eich ffrindiau a chysylltiadau ar draws y byd i ymateb

Helpwch yr Urdd
Helpwch Gymru
Helpwch ein Pobl ifanc .................. i gyrraedd 15 miliwn o bobl mewn 50 o wledydd ar draws y byd yn 2020!
Eisiau mwy o fanylion e-bostiwch - heddwch@urdd.org

# Yr Urdd yn agor y drysau i Eisteddfod T!




"Caewch y drysau yn y cefn, y gegin a'r lolfa, diffoddwch y peiriant torri gwair a sychu gwallt a rhowch bob chwarae teg i'r cystadleuydd nesa', mae **Eisteddfod T** ar fin dechrau..."

Heddiw (Dydd Gwener, Ebrill 24) cyhoeddodd Urdd Gobaith Cymru eu bod am gynnal Eisteddfod arbennig, wahanol eleni, sef **Eisteddfod T**. Yn dilyn y siom o orfod gohirio Eisteddfod Sir Ddinbych 2020 tan 2021, bydd Eisteddfod T yn ddathliad bywiog a byrlymus o holl ddoniau plant ac ieuenctid Cymru, ar lwyfan ychydig yn wahanol i'r un arferol.

Bydd y cystadleuwyr yn cystadlu yn ddigidol, trwy uwch-lwytho fideos, clipiau a lluniau o berfformiadau a chynnyrch, a bydd y rowndiau terfynol yn cael eu darlledu mewn rhaglenni arbennig ar S4C, ar wefan S4C ac ar BBC Radio Cymru. Cynhyrchir yr arlwy i S4C gan AVANTI.

Bydd Eisteddfod T (sy'n chwarae ar y geiriau ti a tŷ) i'w gweld a'i chlywed ar ystod o raglenni a phlatfformau yn ystod yr wythnos yn cychwyn Mai 25, sef yr wythnos pryd roedd yr Eisteddfod ei hun i fod i gael ei chynnal.

Mae'r rhestr testunau a chyfarwyddiadau sut i gystadlu i'w gweld ar wefan www.S4C.cymru/urdd, sydd nawr ar agor i gystadleuwyr. Yma hefyd mae cyfeiliant, gosodiadau, tips ffilmio a recordio a phopeth sydd ei angen i gystadlu. Yn ogystal â chystadlaethau traddodiadol fel cerdd-dant a chorau, mae cystadlaethau eraill mwy anffurfiol – dynwared, lip-sync a chystadlaethau i'r teulu i gyd... a hyd yn oed anifeiliaid anwes! Dyddiad cau'r cystadlu yw Mai 11 am hanner dydd.

"Mi fydd Eisteddfod T yn arbennig," meddai Cyfarwyddwr yr Eisteddfod, Sian Eirian. "Roedd yr Urdd yn benderfynol o gael Eisteddfod mewn ryw ffurf a darparu cyfle i blant a phobl ifanc lle mae'r Eisteddfod yn gymaint o ran o'u calendr. Yn yr un modd, roedd ein partneriaid darlledu - S4C a BBC Radio Cymru - hefyd yn awyddus i gynnal darpariaeth ar gyfer y cynulleidfaoedd sydd wedi arfer â wythnos o arlwy eisteddfodol ddiwedd Mai.

"Mi fydd Eisteddfod T yn cynnig cyfle am gystadlaethau arferol, ar lwyfan ychydig yn wahanol, a chael ychydig o hwyl yn ogystal."

Meddai Amanda Rees, Cyfarwyddwr Cynnwys S4C: "Bydd S4C yn dod â holl dalentau gorau Cymru i chi, a hynny o gartrefi cannoedd o gystadleuwyr ledled y wlad. Ry'n ni'n falch iawn o fod yn rhan o'r cynllun arloesol hwn gyda'r Urdd a byddwn yn darlledu yn ddigidol ac yn llinol gyda rhaglen uchafbwyntiau hefyd bob nos. Yn sicr mae'n mynd i fod yn ddigwyddiad i'w gofio!"

Dywed Rhuanedd Richards, Golygydd BBC Radio Cymru:

"A ninnau mewn cyfnod anodd i bawb, gan gynnwys ein pobl ifanc, mae'n braf iawn cael cydweithio efo'r U rdd i ddod â hwyl yr ŵyl newydd a gwahanol hon i wrandawyr BBC Radio Cymru. Mi fydd Eisteddfod T yn gyfle i ni ddarlledu doniau a thalentau newydd Cymru, o gartrefi'r cystadleuwyr, i ddegau o filoedd o dai ar hyd y wlad, gyda rhai o leisiau adnabyddus yr orsaf yn llywio'r arlwy. Rydyn ni'n edrych 'mlaen yn fawr ac yn falch o gael y cyfle hwn i geisio codi calonnau'r genedl."

Gyda thestunau Eisteddfod Sir Ddinbych 2020 wedi eu rhewi tan flwyddyn nesaf, mae holl destunau Eisteddfod T yn newydd, a'r mwyafrif yn hunan-ddewisiad. Bydd Eisteddfod T hefyd yn cynnig prif wobrau llenyddol, cerdd, drama, celf ac i ddysgwyr yn ystod yr wythnos.

**Twitter: @eisteddfodurdd Facebook: @eisteddfodurdd Instagram: @urddgobaithcymru TikTok: @urddgobaithcymru #EisteddfodT**

# Apêl i blant y 70, 80 a 90au!

Oeddet ti'n gwisgo crysau cheesecloth, yn caru Edward H ac yn bwyta Smash? Ydi 'Slim' yn golygu rhywbeth i ti, nes ti wisgo pedalpushers a chael Vienetta fel trît? Oedd gen ti grysh ar Jabas neu Bethan yn *Tydi Bywyd yn Boen* ac oeddet ti'n gwrando ar Jess a Tynal Tywyll? Fuest ti berchen pâr o Buffaloes ac wyt ti'n gwybod y geiriau i Funky Brenin Disco?

Os mai 'oes', 'ydi' a 'do' ydi'r atebion i unrhyw rai o'r uchod, y tebygolrwydd ydi dy fod yn blentyn y 70au, 80au neu'r 90au... ac os felly mae gan yr Urdd angen clywed gen ti!

I ddathlu ei ben-blwydd yn ganrif oed mewn dwy flynedd, mae Urdd Gobaith Cymru wedi comisiynu'r Prifardd Myrddin ap Dafydd i olrhain hanes y mudiad o'r dechrau'n deg yn 1922 i'r mudiad deinamig ag ydyw heddiw, gyda dros 50,000 o aelodau ledled y wlad a gweithgareddau'n ymestyn ar draws y byd. Bydd y gyfrol yn cael ei chyhoeddi i gyd-fynd gyda'r dathliadau yn 2022.

Ond, mae angen deunydd ar gyfer y 70au, 80au a 90au ac mae Myrddin yn awyddus i gysylltu gyda rhai fu'n ymwneud â'r Urdd dros y degawdau hyn yn benodol. Arhosodd miloedd o blant yng ngwersylloedd Llangrannog a Glan-llyn, aeth degau o blant a phobl ifanc ar dripiau dyngarol yr Urdd - mynd â rhoddion i gartrefi plant yng Ngwlad Pwyl a Tsiecoslofacia - a bu teithiau eraill i Gatalonia a Phatagonia. Mi fu degau o bobl ifanc hefyd yn 'swogio' ac yn mynychu cyrsiau arweinyddion yn y gwersylloedd.

Gyda miloedd ohonom yn sownd adre a llawer yn manteisio ar hynny trwy glirio a didoli, mae'n amser perffaith i fynd i dyrchu am hen luniau.
"Mae digonedd o ddeunydd o hanes cynnar yr Urdd yn yr archif, ond angen deunydd mwy diweddar sydd -falle bod plant y Saithdegau, Wythdegau a Nawdegau yn teimlo eu bod nhw'n rhy ifanc i fod yn rhan o archif!" meddai Myrddin ap Dafydd. "Os allai pobol gysylltu hefo fi am sgwrs anffurfiol, mi fydde hynny'n wych."

Felly os oes stori neu brofiad gennych i'w rannu, llun neu rhywbeth o ddiddordeb, yna hoffai Myrddin i chi gysylltu ag e ar myrddin@carreg-gwalch.cymru. **Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Mari Williams, Rheolwr Cyfathrebu Urdd Gobaith Cymru mari@urdd.org**

# Tudalen i blant dan 8 oed

Tynewydd, Gorrig, Llandysul

Annwyl Blantos,

Wel dyma beth yw amser anodd a gwahanol iawn i`r arfer. Pawb yn aros adref er mwyn bod yn saff o`r firws yma sydd mor beryglus ac yn lledaenu mor gyflym. Mawr obeithiaf eich bod i gyd yn cadw’n ddiogel ac yn mwynhau'r haul hyfryd yma. Mae`n siŵr bod y ffermwyr y gweiddi am law ond braf yw cael mynd am dro yn yr heulwen braf a chadw`n iach ac yn heini.

Mae`n siŵr eich bod yn gweld eisiau eich ffrindiau yn fawr iawn ond rwy’n sicr bydd pethau’n gwella eto`n fuan iawn ac y cawn amser hyfryd yng nghwmni’n gilydd.

Wel mae`r Garthen ar ei newydd wedd ar wefan 360 ac rwy’n falch bod rhai ohonoch wedi anfon llun y cyw yn deor allan o`r wy. Mor braf oedd eu gweld. Maent i gyd llawer mwy deniadol na`r saith cyw bach du sydd gyda fi yn yr ardd. I`r brig fe ddaeth **Eli-May, Penrhiw, Pren-gwyn** ac roedd Cadi y Cyw yn edrych yn dda iawn. Da iawn ti.

Wrth i ni weld y blodau hardd yn eu gogoniant, y tro yma mi hoffwn i chi liwio’r blodau yma. Rwyf wrth fy modd yn gweld blodau’r gwanwyn yn y cloddiau.

Hwyl am y tro gan obeithio y bydd pethau’n well erbyn mis nesaf

**Beth**

**Enw**_____________

________________

**Oed**______

**Cyfeiriad**_________

_____________________

_________________



**Cyfle i chi ennill Tocyn Llyfr gwerth £5**

# CYSTADLEUAETH SWDOCW - AGORED I BAWB

Y cyfan sydd rhaid ei wneud yw cwblhau'r Swdocw a'i anfon ar e-bost at ygarthen@yahoo.com neu drwy'r post at **Rowena Davies-Franklin, Penrhiw, Prengwyn, Llandysul, Ceredigion, SA44 4LL.**
Bydd yr enw cyntaf allan o'r het ar ddiwedd y flwyddyn yn derbyn **£20**. Pob lwc.
Yr enw cyntaf allan o'r het ym mis Ebrill oedd **John Lewis, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth**

**SWDOCW Rhif 60 (Ebrill 2020)**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | 7 | 5 | 3 | 4 | 9 | 1 | 6 | 8 |
| 8 | 4 | 3 | 5 | 6 | 1 | 2 | 7 | 9 |
| 1 | 6 | 9 | 8 | 7 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 5 | 9 | 1 | 6 | 3 | 4 | 8 | 2 | 7 |
| 4 | 2 | 6 | 7 | 9 | 8 | 5 | 3 | 1 |
| 3 | 8 | 7 | 2 | 1 | 5 | 4 | 9 | 6 |
| 9 | 5 | 4 | 1 | 2 | 7 | 6 | 8 | 3 |
| 7 | 3 | 8 | 4 | 5 | 6 | 9 | 1 | 2 |
| 6 | 1 | 2 | 9 | 8 | 3 | 7 | 5 | 4 |






**SWDOCW Rhif 61 (Mai 2020)**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 9 | | | 3 | | 7 | |
| 7 | | | 9 | 1 | | | | 4 |
| 1 | 3 | 4 | | 7 | | | 6 | |
| | | 5 | 3 | | | | | 7 |
| | | 3 | 5 | | 1 | 2 | | 8 |
| 4 | | | | 6 | 7 | 1 | | |
| | 2 | 7 | | | | 9 | 8 | 6 |
| 5 | | | | 9 | | | | 3 |
| | 4 | | 6 | | 8 | 7 | | |

# CYSTADLEUAETH IEUENCTID

Annwyl bawb dyma rywbeth bach i chi wneud yn ystod yr wythnosau diflas yma. Gobeithio y bydd yn helpu i lanw'r oriau hir. Cofiwch gadw yn ddiogel. Lliwiwch y llun ac anfonwch eich atebion a'r llun at
**Yvonne Griffiths, Y Felin, Gwyddgrug, Pencader. SA39 9AX.** Yvonne43@gmail.com
**Rhif ffôn - 01559 384468. Hwyl Fawr Yvonne.**

## Beth ddigwyddodd nesaf?

| | | |
|---|---|---|
|  | |  |
| |  |  |
|  |  | |
|  |  | |

# Gan Bwyll a Daliwch Ati

## Coronafeirws (COVID-19)

Diolch i bawb am aros adref. Rydym yn gwybod bod hyn yn anodd, ond mae eich gweithredoedd wir yn gwneud gwahaniaeth.

Drwy barhau i aros adref, gyda'n gilydd byddwn yn lleihau nifer y bobl yng Ngheredigion sy'n cael eu heintio ac sy'n marw o'r Coronafeirws.

Mae angen i ni weithredu o hyd er mwyn achub mwy o fywydau ac atal y feirws rhag lledaenu yng Ngheredigion. Gallwch ledaenu'r feirws hyd yn oed os nad oes gennych unrhyw symptomau.

Dyma'r UNIG resymau y dylech chi adael eich cartref:

- siopa am eitemau hanfodol neu gasglu meddyginiaeth i chi eich hun neu rywun sy'n cysgodi
- teithio i'r gwaith pan nad ydych yn gallu gweithio o adref
- gwneud ymarfer corff unwaith y dydd yn agos at eich cartref.

Diolch i chi drigolion Ceredigion am wneud gwaith gwych – daliwch ati!

Arhoswch adref, diogelwch y GIG, achubwch fywydau.

Cadwch hyd braich i leddfu'r baich.

www.ceredigion.gov.uk/coronafeirws

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion